# Y NEUADD FAWR CANLLAW WELEDOL

CARDIFF BOX OFFICE

ACCESSIBILITY@CARDIFFBOXOFFICE.COM

WWW.CARDIFFBOXOFFICE.COM

Mae ein mynediad hygyrch ar Ffordd Senghennydd CF24 4AZ. Mae’r drws ger siop Co-Op.
Bydd staff diogelwch wrth y fynedfa hon, a all eich cyfeirio fel bydd angen.
Mae’r drws yn agor gyda chymorth modur.

CARDIFF BOX OFFICE



CARDIFF BOX OFFICE

Mae gan y llwybr at y Swyddfa Docynnau un cornel i’r dde.
Mae’r lloriau yn galed ac yn wastad yr holl ffordd.
Bydd y tîm diogelwch ar gael i’ch cynorthwyo os fydd angen.



Mae arwyddion ar draws y lleoliad yn eich cyfeirio at y Swyddfa Docynnau.



Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu diwallu eich anghenion mynediad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod eich ymweliad siaradwch â’r tîm diogelwch neu staff y Swyddfa Docynnau.



Mae seddi ar gael wrth y Swyddfa Docynnau os fydd gofyn i chi aros am ychydig tra byddwn yn cynorthwyo cwsmeriaid eraill. Mae gan y Swyddfa Docynnau cownter isel.



CARDIFF BOX OFFICE

Gall y tîm diogelwch eich cyfeirio at y lifftiau os fydd angen.
Mae gan y lleoliad ddau lifft ar gyfer cwsmeriaid.



Gallwch hefyd ddefnyddio’r grisiau.
Mae 23 gris o’r Swyddfa Docynnau i’r lleoliad.



Mae’r Cynllun Mynediad Cynnar yn caniatáu mynediad i’r lleoliad 15 munud yn gynharach gan gynnwys y stondin nwyddau, bariau, a’r ystafell gotiau. Mae’r llun isod yn dangos ein stondin nwyddau. Gwnewch yn siŵr i gofrestru ar gyfer y cynllun o flaen llaw.



Mae gan ein Hystafell Gotiau cownter isel a gallwch neidio’r ciw os fydd angen.



Mae gan ein bariau cownteri is yn y cyntedd a’r balconi.
Yn anffodus nid oes gan 1 bar yn y Neuadd Fawr gownter is.



Mae ein 2 platfform gwylio yn cynnig seddi a golygfa o'r llwyfan. Mae hefyd lle ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae bariau a thoiledau gerllaw. Bydd staff diogelwch ar y ddau blatfform er mwyn cynorthwyo. Gwnewch yn siŵr i gofrestru ar gyfer y mynediad hwn o flaen llaw.



Mae ardaloedd eistedd wedi'u lleoli ar y balconi.
Gellir prynu bwyd poeth o'r bar yma tan 21:30.
Mae bwydlenni ffont mawr ar gael.



Mae toiledau hygyrch ar gael ar bob llawr gyda chyfleusterau newid babanod.
Mae’r toiledau’n defnyddio allweddi radar er mwyn cloi a gellir eu casglu wrth unrhyw fawr o fewn y lleoliad neu’r Swyddfa Docynnau. Dylid dychwelyd allweddi i’r un man.








Mae ardaloedd tawel wedi’u lleoli ger ein derbynfa ar Lawr 2.
Siaradwch ag aelod o staff am fynediad i’r ardal hon.



Mwynhewch y sioe!
Os oes angen unrhyw beth arnoch, siaradwch ag aelod o staff.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar cardiffboxoffice.com

